POLISI CANU'R GLOCH

Dyddiad y Cyfarfod: 13/10/15

Arwyddwyd: _____ Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____

==========

DATGELU CAMARFER/"CANU'R GLOCH" o ran staff o fewn ysgolion

1.0 RHAGARWEINIAD

Mae Ysgol Eifionydd yn derbyn egwyddorion y Polisi Sirol hwn yn llawn ac yn gweithredu'r Polisi.

Mae pawb sy'n gweithio i'r Ysgol yn dod dan y polisi hwn. Cafodd ei lunio er mwyn rhoi cyfle i weithwyr sôn am eu pryderon am bethau sy'n amhriodol, a gwneud hynny yn hyderus a difalais, a heb ofni cael eu disgyblu am fradychu ymddiriedaeth.

Mae datgelu yn golygu fod aelodau staff yn sôn am gamymddwyn, boed yn rhywbeth afreolaidd, yn gam weithredu neu fethu'n ddifrifol â chwrdd â safon gwaith. Mae er lles pawb – yn blant, athrawon, staff cymorth , llywodraethwyr, y Cyngor a'r trethdalwyr - fod unrhyw beth sy'n cael ei ddatgelu yn cael ei drin yn briodol, yn sydyn ac yn gyfrinachol.

Cafodd polisi datgelu ei lunio er mwyn rhoi cyfle i staff sôn am gamymddygiad yn fewnol, sydd yn fwy tebygol o warchod enw da Ysgol a chadw ffydd y cyhoedd na sôn amdano'n gyhoeddus neu adael i'r drwg waethygu.

Gall pryderon aelod o staff am gamymddwyn olygu ei fod yn poeni am dwyll, trefniadau sy'n beryglus i iechyd a diogelwch, gamddefnydd cyffuriau ac alcohol, camdriniaeth rhywiol neu corfforol, bwlian, osgoi cyfrifoldeb statudol, neu unrhyw beth arall sy'n anfoesol. Y peth pwysig yw ei fod er lles pawb i'r drwg gael ei ddatgelu, ac os yw'n briodol, fod yr un sy'n gyfrifol yn cael ei gosbi.

Hefyd, bydd disgwyl i'r staff, trwy drefniadau a gytunwyd, ac heb ofni unrhyw ddial, ddod ag unrhyw ddiffyg yn yr ysgol i sylw'r person priodol. Rhaid i weithwyr roi gwybod i'r person priodol am unrhyw beth afreolaidd neu drosedd yn erbyn y drefn.

2.0 CYFLWYNIAD

O fewn ysgolion yn aml y staff yw'r cyntaf i sylweddoli fod yna rhywbeth yn ddifrifol o'i le. Gall hyn olygu pryderon am gamddefnydd cyffuriau ac alcohol, camdriniaeth rhywiol neu gorfforol, bwlio, twyll ariannol ac yn y blaen. Mae polisïau cytunedig eisoes yn bodoli o fewn yr Awdurdod ar gyfer delio a materion o'r fath ac nid yw trefniadau datgelu neu canu'r gloch yn eu disodli mewn unrhyw ffordd. Maent fodd bynnag yn rhoi ffyrdd cyfrinachol o godi pryder a'r ymateb dylai ddilyn o gwyn. Yn aml ni wneir cwynion oherwydd teimlad y byddai'r unigolyn yn annheyrngar i'w cydweithwyr, yr ysgol neu yr Awdurdod. Mae hefyd yn bosib fod yr unigolyn yn poeni am y posibilrwydd o erledigaeth yn dilyn cwyn o'r fath. Mewn amgylchiadau felly gallai fod yn haws anwybyddu'r pryder yn hytrach na sôn am rywbeth sydd wedi'r cwbl yn ddim ond amheuaeth am gamymddwyn.

Mae'r Awdurdod Addysg a'r Corff Llywodraethol wedi ymrwymo i gynnal y safonau gorau posib o fod yn agored, yn onest ac yn atebol. Felly rydym yn annog gweithwyr i fod yn agored a sôn am eu pryderon.

Sylweddolwn y bydd rhaid trin rhai achosion yn gyfrinachol. Mae'r ddogfen bolisi yma yn gwneud yn glir y gall staff wneud hynny heb ofni unrhyw ddial. Bwriad y polisi datgelu yma yw annog staff a'i gwneud yn haws iddynt sôn am bryderon difrifol o fewn yr Ysgol a'r Awdurdod Addysg, yn hytrach nag anwybyddu'r broblem neu sôn amdani y tu allan.

3.0 AMCANION A CHWMPAS Y POLISI HWN

Amcan y polisi hwn ydy:-
rhoi cyfle i chi sôn am eich pryderon a chael gwybod beth ddigwyddodd wedyn;
rhoi hawl i chi fynd â'r mater ymhellach os nad ydych yn fodlon ar ymateb yr Ysgol ac/neu'r Awdurdod Addysg;
rhoi sicrwydd i chi y cewch eich gwarchod rhag dial neu erlid am ddatgelu drwg yn onest.
Mae yna drefn yn bod i chi fedru gwneud cwyn mewn perthynas â'ch gwaith chi eich hun neu yn erbyn ymddygiad aelod o staff yr Ysgol. Mae'r polisi datgelu hwn yn cynnwys pryderon sydd y tu allan i gwmpas trefniadau eraill. Gall y pryder hwnnw fod am rywbeth sydd:-

- **yn anghyfreithlon, twyllodrus neu lwgr, neu**
- **yn erbyn Rheolau Sefydlog neu bolisiau'r Ysgol a'r Awdurdod Addysg, neu'n**
- **gyfystyr ag ymddygiad amhriodol.**

4.0 RHAGOFALON

Mae'r Awdurdod Addysg a'r Corff Llywodraethol yn sylweddoli y gall fod yn anodd penderfynu sôn am bryder, yn enwedig pan fyddwch yn ofni y bydd y rhai sy'n gyfrifol am y drwg weithredu yn mynd i ddial arnoch chi.Ni fydd yr Ysgol na'r Awdurdod Addysg yn goddef aflonyddu nac erlid a bydd yn eich gwarchod pan fyddwch yn sôn am bryder yn ddidwyll.

Dydy hyn ddim yn golygu, os ydych chi eisoes dan drefn ddisgyblu neu ddiswyddo, y bydd y trefniadau hynny'n cael eu hatal am i chi ddatgelu rhywbeth.

Bydd y Awdurdod Addysg a'r Corff Llywodraethol yn gwneud ei orau i warchod eich enw pan fyddwch yn codi unrhyw bryder ac yn dymuno aros yn ddienw. Ond rhaid sylweddoli y gallai'ch enw ddod yn amlwg wrth edrych i mewn i'r mater, a hwyrach y bydd rhaid i chi wneud datganiad fel rhan o'r dystiolaeth.

Mae'r polisi hwn yn eich annog i roi eich enw wrth eich cwyn ac onibai fod rhesymau penodol dros gyflwyno cais dienw dylech wneud hynny. Mae pryderon dienw yn llawer gwanach, ond fe gânt eu hystyried yn ôl disgresiwn y Awdurdod Addysg a'r Corff Llywodraethol, ar ôl ystyried:

- pa mor ddifrifol yw'r materion a godwyd;
- pa mor gredadwy yw'r pryder;
- pa siawns sydd yna i gael ffynhonnell ddibynadwy i gadarnhau'r honiad.

Os byddwch yn honni rhywbeth yn hollol ddidwyll, ond nad yw'r archwiliad yn ei gadarnhau, fydd yna ddim gweithredu yn eich erbyn chi.

Nid yw'r polisi yma yn cymryd lle systemau cwyno'r ysgol.

5.0 SUT I SON AM BRYDER

Fel cam cyntaf fel arfer, dylech sôn wrth y Prifathro/awes neu Cadeirydd y llywodraethwyr. Ond mae hyn yn dibynnu ar ba mor ddifrifol a sensitif yw'r materion dan sylw a phwy sy'n cael ei amau o gamweithredu. Er enghraifft os yw'r Prifathro/awes neu'r Cadeirydd y llywodraethwyr o dan amheuaeth yna dylid cysylltu a Swyddog yn y Gwasanaeth Ysgolion. Os taw Swyddog yn y Gwasanaeth sydd yn cael ei amau well adrodd i'r Prif Weithredwr, a fyddai yn ei dro yn gorfod ymgynghori â'r Swyddog Monitro, y Prif Swyddog Cyllid, neu Bennaeth yr Uned Archwilio Mewnol, yn dibynnu ar natur y mater(ion) a godwyd.

Mae'n well codi pryderon mewn ysgrifen. Gofynnwn i chi roi cefndir a hanes eich pryder, a rhoi enwau, dyddiadau a lleoedd, os yn bosib, a'ch rheswm dros fod yn bryderus am y sefyllfa. Os ydych chi'n teimlo na

allwch roi'ch pryder ar bapur, mae croeso i chi ffonio neu gwrdd â'ch Prifathro/awes a Chadeirydd Llywodraethwyr â'r Swyddog Gwasanaeth Ysgolion.
Er nad oes disgwyl i chi brofi fod eich honiad yn wir, bydd rhaid i chi ddangos i'r person cyswllt fod digon o sail i'ch pryder.

Gallwch gael cyngor neu arweiniad ar sut i ddelio â'ch pryder gan gynrychiolydd eich undeb.

Gallwch wahodd eich undeb Athrawon, undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol i godi'r mater ar eich rhan.

6.0 SUT Y BYDD Y AWDURDOD ADDYSG / CORFF LLYWODRAETHOL / YSGOL YN YMATEB

Mae'r ffordd y bydd y Awdurdod Addysg /Corff Llywodraethol yn ymateb yn dibynnu ar natur y pryder. Gall y materion a godwch:-

- gael eu harchwilio'n fewnol
- gael eu cyfeirio i'r Heddlu
- gael eu cyfeirio i'r Archwiliwr Dosbarth, neu
- fynd i ymchwiliad annibynnol

Er mwyn gwarchod unigolion a'r Ysgol gwneir ymholiadau i gychwyn i benderfynu a yw'n iawn cynnal ymchwiliad, ac os felly, sut ymchwiliad. Cofiwch nid yw ymchwilio i bryder cyfystyr a derbyn neu ei gwrthod. Os ydych yn dewis datgelu pryder yn ffurfiol fe fydd person yn cael ei ddynodi gan Uwch Dim Rheoli Ysgol, Corff Llywodraethol, neu gan swyddogion y Gwasanaeth ysgolion i gydgysylltu ac ymateb i'ch pryder. Bydd pryderon neu honiadau sy'n dod dan drefniadau penodol (er enghraifft, amddiffyn plant neu faterion gwahaniaethu) fel arfer yn cael eu cyfeirio i gael eu hystyried dan y trefniadau hynny.

Weithiau bydd yn bosib cytuno ar sut i ddatrys pryder heb orfod cael ymchwiliad. Os yw ymateb cyflym ei angen fe all hyn ddigwydd cyn i ymchwiliad cymryd lle.

O fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl derbyn pryder, fe fydd y person dynodedig yn ysgrifennu atoch chi:-

- i gydnabod derbyn y pryder
- i ddangos sut mae'n bwriadu delio â'r mater
- i roi syniad i chi faint o amser fydd ei angen cyn rhoi ymateb terfynol
- i ddweud a yw wedi gwneud unrhyw ymholiadau cychwynnol, ac
- a fydd yn gwneud unrhyw ymchwiliad pellach, ac os na fydd, pam hynny.

Mae faint o gysylltiad fydd rhyngoch chi a'r person dynodedig sy'n delio â'r mater yn dibynnu ar natur y materion a godwyd, yr anawsterau tebygol a pha mor glir oedd y wybodaeth a roesoch. Os bydd angen, bydd y person dynodedig yn gofyn am fwy o wybodaeth gennych.

Pan fydd cyfarfod yn cael ei drefnu, mae gennych hawl, os dymunwch chi, i ddod â chynrychiolydd undeb neu gyfaill efo chi.

Bydd y Gwasanaeth Ysgolion a'r Corff Llywodraethol yn gwneud ei orau i leddfu unrhyw drafferthion a gewch chi am fynegi'ch pryder. Er enghraifft, os bydd angen i chi roi tystiolaeth mewn achos troseddol neu achos disgyblaeth, bydd y Gwasanaeth Ysgolion/Corff Llywodraethol yn eich cynghori am y drefn.
Mae'r Gwasanaeth Ysgolion/Corff Llywodraethol yn derbyn eich bod eisiau sicrwydd i'r mater gael ei drin yn iawn. Felly, yn amodol ar gyfyngiadau'r gyfraith, byddwch yn cael gwybod beth fydd canlyniad unrhyw ymchwiliad.

7.0 CAM PELLACH

Bwriad y polisi hwn yw agor ffordd i chi godi pryderon. Os na fyddwch chi yn fodlon a'r canlyniad, ac os teimlwch chi y dylid mynd â'r mater y tu allan i'r Gwasanaeth Ysgolion, gallech gysylltu ag un o'r rhain:-

- yr Archwiliwr Dosbarth
- corff proffesiynol neu sefydliad rheoli perthnasol
- eich cyfreithiwr
- yr heddlu
- yr Ombwdsman Llywodraeth Leol

Os byddwch yn mynd â'r mater y tu allan i'r Cyngor neu'r Ysgol, rhaid i chi wneud yn siwr na fyddwch yn datgelu unrhyw wybodaeth gyfrinachol.

Byddai'n amhriodol i chi gysylltu â chorff allanol neu â'r cyfryngau cyn i'r mater gael ei drafod yn fewnol yn gyntaf.

8.0 Y SWYDOG CYFRIFOL

Gan y Pennaeth Gwasanaeth Ysgolion mae'r cyfrifoldeb cyffredinol am gynnal a gweithredu'r polisi hwn. Bydd ef yn cadw cofnod o bryderon a godwyd ac o'r canlyniadau (ond mewn ffordd na fydd yn peryglu'ch cyfrinachedd chi) a bydd yn adrodd i'r Cyngor yn ôl yr angen.

9.0 CAMDDEFNYDDIO'R DREFN

Os byddwch yn gwneud honiadau maleisus neu flinderus dan y polisi hwn, yna mae'n bosib y cewch eich disgyblu.